

# Llên natur

Bwletin 135  
Mai 2019

gan gynnwys Y Bwrdd Natur,  
adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Llynnau Mymbyr: golygfa ochr-ffordd orau Cymru  
Rhys Griffiths

## Buchod cwta oren



Buwch gota smotiau hufen *Calvia quattuordecimguttata*

Wedi ei ffeindio yn y car p'nawn 25 Mawrth.

Catrin Lliar Jones

Wedi cyfeirio at fy nhaflen FSC ar fuchod coch; cytunaf mai *Calvia 14-guttata* yw'r tebycaf. Cyffredin ac eang ei ddsbathiad mewn coed collddail ac yn gaeafu mewn deilbridd. Tybed sut y cyrhaeddodd gar Catrin?

Iwan Roberts

Dyma gofnod o hen Fwletin o 2012 o fuchod goch gota oren *Halyza sedecimguttata* (mae'r lliw cefndirol yn gyson yn y ddau mae'n debyg, ac yn ddigon i'w gwahaniaethu)

### Buchod cwta

Yn yr Herald Cymraeg yr wythnos hon [diwedd Awst 2012], mae gan Elizabeth Jones o Bentrecelyn, Rhuthun rigwm Cymraeg am y fuchod goch gota.

"Buwch goch gota  
Pa un ai glaw neu hindda?  
Os mai glaw cwmp, cwmp i'r baw  
Os mai teg, hedfana.

Trwy law Bethan Wyn Jones

Mae'r enwau Cymraeg ar y buchod cwta wedi cael eu cyhoeddi. Dyma un ohonynt:

Y fuchod oren gota  
*Halyzia sedecimguttata*.  
Wedi'i chofnodi yng  
Ngwarchodfa Natur  
Genedlaethol Coedydd  
Maentwrog,

Llun a sylw: Paul Williams

Meddai John Bratton:  
They have been around  
through the winter  
(2009-10).



## Pabell y gwaswyfynod - cynnar?



Porth Swtan, Môn, 17 Ebrill.

Gwen Meredydd Williams

Wedi bod trwy'r gwahanol gronfeydd data yn chwilio am gofnodion eraill (13 ohonynt nhw) a dim un yn gynharach na mis Mai.

## Diwrnod da o waith!

### Albwm Cilgwri Bethan Vaughan Davies



*Pisaura mirabilis* (nursery web spider yn y Saesneg).

Cynigon am enw Cymraeg?  
COPYN MEITHRINWE.. efallai!



Pry gro o deulu'r *Trichoptera* (y gweinbryfed).

Pryf sy'n hoff gan bysgotwyr.  
Yn eu cyflwr larfaol fe'i gelwir yn 'corbats'



MELYN Y RHAFNWDYDD

Un o greaduriaid harddaf y gwanwyn cynnar - ond rhaid cael y rhafnwydden yn tyfu wrthlaw.



GWYN BLAEN OREN cynta'r flwyddyn

Dim ond y gwryw sydd ag oren (mae'n hawdd drysu'r fenyw efo rhai o'r gwynion eraill)



GWENYNBRYF *Bombus fulva*

Un o'r pryfed dwy adain mwyaf apelgar.



TITW BARFOG

Safleoedd yn ngogledd Cymru: Conwy a rhai corsydd ar Ynys Môn

Cyfyngedig tan y ddiweddar i gorsdiroedd Dwyrain Anglia

Cyfeirnod Grid SH306404, lluniau i gyd wedi cael eu tynu yn agos iawn at y Ganolfan Ymwelwyr, Gwarchodfa Natur Burton Mere, Cilgwri.

## Clapio wyau



Llun o glapiwr fy mam! Mi fydda hi'n arfer clapio am wyau pan yn blentyn yn ardal Bodedern yn nhridegau y ganrif ddwytha  
Sian Hughes

Roedd mynd i glapio cyn y Pasg yn arfer poblogaidd gan blant Sir Fôn, flynyddoedd yn ôl. Fel rheol roedd y plant yn cael awr neu ddwy o'r ysgol neu ddiwrnod neu ddau cyn cau'r ysgol er mwyn cael mynd i gasglu wyau ieir o gwmpas ffermydd a thyddynnod yr ardal. Defnyddid darn o bren gyda dau ddarn bach bob ochor er mwyn creu'r 'clapar' a phiser bach neu fasgiad gyda gwellt neu laswellt at waelod y fasgiad er mwyn cael casglu'r wyau ac i wneud yn siŵr nad oedd yr wyau yn cael eu difetha ar y ffordd. Arferai'r plant fynd o amgylch ffermydd yr ardal gan guro drysau ac adrodd rhigwm wrth ysgwyd y clapiwr. Mae *Clap, clap, gofyn ŵy, Hogia bach ar y plwy, Plîs ga'i ŵy?* yn enghraifft o rigwm maen nhw'n parhau i ddefnyddio hyd heddiw.

Yn ôl yr arferiad byddai'r drws yn cael ei agor a'r person tu mewn i'r tŷ yn gofyn "*A phlant bach pwy 'dach chi?*" Ar ôl cael ateb, byddai perchennog y tŷ yn rhoi ŵy yr un i'r plant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae yna adfywiad wedi bod o ganlyniad i waith Menter Iaith Môn ar yr Ynys. Cynhelir gweithgareddau clapio wyau yn flynyddol ym mhentrefi Llynfaes, Talwrn, Rhosybol a Charreglefn. Wyau siocled yw'r arferiad erbyn hyn, nid wyau ieir.

Aaron Morris

<https://tinyurl.com/y4epeon9>



Defnyddid y clapiwr ers stalwm I ddychryn brain o'r cnydau. Bechgyn bach a wnaethai'r gwaith hwn.

Cysylltwch â Llên Natur : [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook

## Blodau'r ddraenen ddu a'r hen Fawrth



Blodau'drain duon,  
6 Ebrill 2019, Bryn  
Argoed, Waunfawr

Cefais hap-sgwrs efo dyn cwbl ddiarth i mi ym Mangor ar 4 Ebrill 2019 a ninnau ill dau yn cwyno am y gwynt iasol. Dywedodd y cyfaill: "mae nhw'n deud nad ydi'r 'hen Fawrth' ddim yn mynd allan tan y thirtinth o April". Pam y 13eg ac nid yr 11eg (sef y gwahaniaeth 11 niwrnod rhwng yr hen galendr ar un Gregoraidd) dwi ddim yn siwr. Ella mai dyna sydd tu ôl i'r dywediad gan Twm Elias isod am y drain duon. Mae'r drain duon yn eu hanterth eleni wythnos cyntaf Ebrill - digwydd bod! (DB)

Dyma Twm: "Gaeaf drain duon" – yng nghyfnod blodeuo'r ddraenen ddu ym Mawrth a dechra Ebrill, mi fyddwn o bryd i'w gilydd yn cael cyfnod oer, eiraog. Wel, fe gawsom eira/cenllysg ddoe (3 Ebrill) ac mae'n dal yn wynt oer iawn o'r gogledd a'r mynyddoedd yn dal yn wyn. Ond peidiwch poeni: "Ni saif eira fis Ebrill fwy na rhyinion mewn rhidyll"

O edrych yn y Tywyddiadur gwelir, o chwilio am *blackthorn*, y dyddiadau canlynol am flodau (yn nhrefn amser):



14/4/2018	<i>Seen in flower DP</i>	Bangor
22/4/1962	<i>Just coming into full flower HM</i>	Amwythig
16/4/1961	<i>Blackthorn was wonderful HM</i>	Amwythig
15/3/1938	<i>Blackthorn in flower EHTB</i>	Aberdyfi
19/3/1932	<i>Blackthorn in flower EHTB</i>	Aberdyfi
25/3/1931	<i>B bloom in several places EHTB</i>	Aberdyfi
12/4/1914	<i>Blackthorn in flower HT</i>	Llandudno
17/4/1906	<i>B bushes a wonderful sight just now EH</i>	Dartmoor
7/4/1906	<i>Found some b in blossom EH</i>	Swydd Warwick
17/4/1906	<i>In search of wild flowers....b'thorn EH</i>	Swydd Warwick
4/4/1905	<i>B'thorn in bud EH</i> [felly y blodau'n hwyrach na'r 4ydd]	Swydd Warwick
4/5/1876	<i>B blossoming bright FK</i>	St Harmans
1/5/1789	<i>Not a single bloom on the b'thorn.</i>	Llangollen

Difyr yw nodi: 1. bod y ddraenen ddu yn tueddu I flodeuo'n HWYRACH ers talwm, a 2. yn GYNT yn Aberdyfi (ac efallai manau tyner eraill?). Tystion o Aberdyfi eleni...?



Gwiber, Ebrill 1af. Dwi wrth fy modd gyda patrwm u-bedol ar ben y wiber yma. Wedi anfon y cofnod i M. Brumage, recordydd ymlusgiaid gogledd Cymru; disgwyl cadarnhad ond dwi'n tybio mae gwiber benywaidd sydd yma - lliw a maint. Tynnais y llun gyda lens tele-photo o bell, er mwyn peidio aflonyddu arni.

Newydd gael ateb gan Mick : *Yes, it is a female and one that I have not seen before. It has been a good year so far with 14 different adults, 12 male and 2 female.* { yn yr un ardal } Mae gan pob gwiber batrwm gwahanol ar y pen ac oherwydd hyn rydym yn gallu eu hadnabod.



Ydi hi'n hawdd gwahaniaethu gwiberod wrth patrwm eu pen?



Dwy fenyw wahanol yw rhain (uchod)



Rhain i gyd o Fynydd Hiraethog: yn ôl Mick Brummage mae 14 yn yr ardal y gwanwyn yma, 'dwi eto bron 100% bod y gweddill yn wiberod gwahanol. Diddorol dim ond 2 fenyw, sgwn i os ydy hyn yn batrwm cenedlaethol?


Alun Williams

Rhaglen BBC arbennig o dda:

<https://www.bbc.co.uk/programmes/b0bfy96y>

**DYFODIAD Y GWANWYN, WAUNFAWR**

Hyd ddiwedd Mawrth 1996-2019



Dyma graff diweddaraf Huw H. Jones yn mesur datblygiad y gwanwyn eleni (melyn) o safbwynt crynhoed y tymheredd (Tsum) hyd ddiwedd Mawrth o'i gymharu a gwanwynau mwyaf blaengar (glas, 1998), hwyraf (coch, 2010) a chyfartaledd y blynyddoedd i gyd ers 1995 (gwyrdd).

Saethau pinc - dechrau cynhesu

Saethau glas - troi'n oer

Torrwyd pob record Chwefror ar y 25 Chwefror eleni (diwrnod 56) pan aeth y tymheredd yn uwch na 20C am y tro cyntaf erioed (cylch du).

**Siarad cyfrolau!**



Madfall cyffredin melanaidd, Tregarth Dominig Kervegant  
Gwenoliaid y glennydd wedi eu cau allan o'u nythod

Gwefan ITV.com

Pioden a'i thrysor (wy turtur dorchog mae'n debyg) 9 Ebrill

Eleri Fôn

Sgrech y coed efo'i drysor ef - mesen, 6 mis ar ôl ei fwrw. Ardal Diserth, 10 Ebrill.

Eifion Griffiths

## Enwi'r flodwenynen facsiog



Lluniau: Wikipedia

Mae aelod grŵp o ddysgwyr yn Aberystwyth wedi darganfod "*hairy footed flower bee*" (*Anthophora plumipes*) ym Mhenparcau, Aberystwyth. Oes enw Cymraeg ar y rhywogaeth hon?

Mae Geiriadur yr Academi yn cynnig gwenynen y blodau am flower bee. Felly cynigaf 'gwenynen flodau traed blewog' (llu. gwenyn blodau traed blewog). Ydi'r gramadeg yn iawn tybed?

Dyma ateb ar y matergan Bruce Griffiths:

"Tebyg y byddai "gwenynen flodau" yn well na "gwenynen y blodau"; wedi'r cyfan "twrch daear" a ddywedir, nid "twrch y ddaear".

Ynghylch "*Anthophora plumipes*" (hairy-footed flower bee): Mater dyrys braidd. Hyd y gwn, nid oes ansoddair megis "troedflewog" neu "blewdroediog" yn cyfateb i "hairy-footed". Yn dilyn patrwm ansoddeiriau megis "hirgoes", "croenwyn", "pengoch", tybed a ellid dweud "blewdroed", e.e. gwenynen (flewdroed/flewdraed) y blodau", lluosog, "gwenyn (blewdroed/blewdraed) y blodau"?

Gofynais i'r arbenigwr gwenyn Oliver Prys Jones os yw'r *Anthophora* yn gyffredinol yn cael ei adnabod fel "flower bees" (byddai hynny yn cryfhau'r achos dros alw'r genws cyfan yn "blodwenyn"). Gofynais hefyd iddo os yw blodwenynen flewdraed yn swnio iddo fo (mae ganddo dras a chysylltiadau Cymreig) yn enw derbyniol. Dyma ddywedodd:

*"As a direct translation 'blodwenynen flewdraed' seems sensible - rather than generating a new name. Other Anthophora are also called Flower bees (see attachment). I'm not sure all are; some don't have common English names anyway. I think it would be quite in order to call all Anthophora bees blodwenynen."*

Felly BLODWENYNEN FLEWDRAED (llu. blodwenyn blewdraed) yw'r consensws. A dyma derm newydd yn y Gymraeg hefyd am yr holl genws *Anthophora*, sef y BLODWENYN.

OND nid dyna ddiwedd y stori. Dyma Ann Corkett: Mae arna i ofn y bydd yn rhaid ychwanegu at y drafodaeth, gan fod Bruce [Griffiths] wedi cael syniad llawer gwell - gwenynen facsiog (**gwenyn bacsio**) y blodau, neu blodwenynen facsiog, neu mi fyddai gwenynen flodau facsiog yn bosibl, ond nid gymaint i'w chwaith o. Os edrychwch am bacsio yn Geiriadur Prifysgol Cymru, mi welwch baham.

## Haul y gwanwyn...

Roedd Mam yn ei ddeud yn amal wrthon ni "Haul y gwanwyn yn waeth na gwenwyn"...gwelais yn rhywle bod "Gwynt y Gwanwyn yn waeth na gwenwyn" yn cael ei ddefnyddio hefyd Anita Myfanwy  
Anfonodd Anita y ddolen ddi-ddorol hon i ni hefyd.  
<https://idiomation.wordpress.com/2010/03/30/never-cast-a-clout-until-may-is-out/>

## Tywydd "tymhoraidd" ers stalwm

Cofnod difyr dyddiedig 7 Ionawr 1886:

*"Y mae Mrs. Williams a minnau yn teimlo gyda gofid fod y tywydd hwn yn anffafriol i'ch anwyl fachgen. Mae y rhew ar y pyllau yma yn 8 modfedd o drwch. Rhew distaw, tebyg i'r hyn fydd yn America. A golwg am iddo barhau ryw hyd etto. Ond mae'n dymhoraidd, ac yn adferiad o'r gauaf hen ffasiwn, pan oeddym ni yn hogiau. Yr wyf bron a phrophwydo y bydd y rhew hwn a'r hin hon yn feddyginiaeth i glefyd y tattws. Collodd y tattws y dydd pan gawsom auafau rhy rywiog."*  
O gyfrol gan Myrddin Fardd

Mae'r bumed frawddeg yn ddadlennol ac yn dangos nad yw gaeafau "tymhoraidd.... hen ffasiwn" yn beth newydd. Gyda llaw, roedd y tywydd oer hwn yn mynd i barhau tan 18 Ionawr. Ysgwn i beth oedd tynged y 'bachgen annwyl'?

## Broc Padog

Cofnod o Badog, Ysbyty Ifan:

Tachwedd 26ain a 27ain [1934]: "Bydylu rhedyn a chario broc yn das yn y gadlas. Malu gwellt am awr, twyso y gaseg hefo'r trowr"  
Dyddiadur DO Jones, Padog

Gan mai "broc môr" oedd yr unig froc y gwyddwn i (DB) amdano, go brin mai am hwnnw, ym Mhadog, roedd DO yn sôn. Felly holais y teulu, a dyma'r ateb a gefais:

"Eglurhad gan y brawd bach yn America [Rheinallt Jones] - 'Broc ydi'r gwair o'r wernydd. Y gweiryng brown garw a chaled. Ei gynhaeafu yn mis Medi a'i ddefnyddio i roi dan y lloi (bedding)' "Tybiais mai *Molinia* (glaswellt y gweunydd) oedd dan sylw, ond na. Dyma Rheinallt eto:

"Nid y 'Molinia' ond yn hytrach y frwynen flodeufain '*Juncus acutiflorus*' (ymhysg eraill) fydda'n cael ei dorri a'i gynhaeafu ac ei alw'n 'broc'. Hwn oedd y 'gwair' o'r ansawdd gwaelaf, ac o'r herwydd (dybiwn i) felly'n cael ei alw'n 'broc'."

Dyma Eiriadur Prifysgol Cymru:

**broc**<sup>1</sup> bnth. S. C. *broc, broke* 'fragment'; ag adran eg. gan amlaf yn y cfn. *broc môr*. Coed neu ysbwrial a olchir i'r lan gan y môr neu a gludir i lawr gan lifogydd: *wreckage, sea-wrack, driftwood*.

1547 *WS, brock* mor, wrake of the sea.

Oes eraill yn gwybod am ddefnydd o "broc" nad yw'n gysylltiedig â môr

Cofiwch glicio ar ddolenau'r bwletin hwn!

## Rhyw y madfallod



**Diolch i chi am fy nghrosawu i'r grŵp gwych hwn.** Ymddiheuriadau, mae fy Nghymraeg yn gyfyngedig, felly ar gyfer y swydd hon byddaf yn gorfod defnyddio Saesneg.

*It is an honour to be able to continue the role that Liz Howe fulfilled in this group, answering questions and posting with regard to the Amphibians and Reptiles of Wales. I was lucky enough to know and work with Liz for several years, and I have a great deal of respect and admiration for her. I hope that I can make as helpful a contribution to the group as Liz has done up until now. I have noticed several posts recently featuring viviparous (live-bearing) or common lizards (*Zootoca vivipara*), so I thought I would start with an attempt to describe how to differentiate between males and females.*

Viviparous lizards inhabit a diverse range of habitats in Wales including dune systems and so subsequently are often mistaken for sand lizards. Common lizards are typically smaller in length than sand lizards (13-15cm), more slender in build and with a narrower head. Background colouration is extremely variable and although this is generally a shade of brown or tan, green specimens are also regularly encountered in Welsh dunes. Melanistic (black) animals can also occur. **Males** tend to have a **flecked pattern** on the back and **females** tend to have **stripes**, however pattern alone is not always sufficient to determine the sexes; look out for the **hemi-penal bulge** at the base of the tail of **male** lizards compared to the **narrower base** of the tail of **female** lizards. Also, the body proportions of lizards are a good indication of gender. Whilst female lizards have longer torsos, shorter tails and smallish heads, by comparison, male lizards possess shorter torsos, longer tails and bulkier heads. Juveniles of this species are very dark in colour, (appearing dark bronze/almost black) and approximately 4cm in length when they first appear in July/August. Here are a few shots of pairs of Welsh viviparous lizards. See if you can work out which animal of each pair is male and which is female. Pob lwc! **Ewch yma i weld y gweddill :**

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/1000543013474335?sfns=mo>

## Wil piser hir cynnar



**WIL PISAR HIR - Pry Sant Marc (benyw) ychydig yn gynnar.**

Bydd gwyl Sant Marc ar 25 Ebrill, wythnos i fynd... *Bibio marci* Tregarth, 16 Ebrill 2019

**Dominig Kervegant**

Gellir gwahaniaethu'r fenyw wrth y ddau lygad cyfansawdd sy'n cyffwrdd â'u i gilydd

Ond beth am yr Hen Galendr pan oedd yr "hen" Wyl Sant Marc un ar ddeg o ddyddiau yn hwyrach (sef ar y 27 Ebrill). Cysylltir y pryf hwn efo mis Mai ac efo blodau'r ddraenen wen.



Pryfed Sant Marc yn hedfan, Marloes, Penfro, 11 Mai 2018

**Graham Williams**

## Rhag llygad y diafol



Canfuwyd y dysan hon wedi ei 'drywannu' â matsys, uwchben rhes o bys mewn gardd yng Nghaerfyrddin yn 1910. Dywedir iddo warchod rhag llygad y diafol.

Oes gennych greiriau tebyg i'w rhannu?

<https://www.casgliadywerin.cymru/items/1845>

Via [Amgueddfeydd Sir Gâr - Carmarthenshire Museums](#)

**Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia**

Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

## Un llun yn werth mil o eiriau



### Beth yw'r ots gen i am blastig?

Fel yna rydan ni i gyd yn byw.  
Dim poeni o gwbwl am 'fory,  
A'r llygredd i holl ddynol ryw.

Daw'n ddiwedd ar fywyd y moroedd,  
A'i effaith ddistrywia ein byd.  
Ond trymgwsg yw rhemp lywodraethau,  
Di-fater, di-hidio o hyd.

Gareth Pritchard

<https://secure.greenpeace.org.uk/.../conte.../sains-burys-plastic>



Llen  
natur